# Ydych chi'n cadw ieir, hwyaid neu wyddau...?

**Helpwch i amddiffyn eich adar rhag Ffliw'r Adar #birdflu**

## A wyddoch chi?

Mae perygl cyson y gall adar gwyllt drosglwyddo Ffliw'r Adar yn y DU. Gan ei fod mor heintus, rhaid cymryd camau i amddiffyn eich adar.

## Cofiwch

Os oes gennych adar sâl neu adar sydd wedi marw heb reswm, holwch eich milfeddyg. Os ydych yn amau bod y Ffliwar eich adar, rhaid hysbysu'r awdurdodau a gall hynny effeithio ar eich hawl i'w symud a'u masnachu.

## Cam 1: Glanhau

Glanhewch eich esgidiau cyn ac ar ôl bod yn gweld eich adar. Cadwch eu lle'n lân ac yn daclus, rheolwch fermin a diheintiwch arwynebeddau caled yn rheolaidd.

## Cam 2: Bwyd

Rhowch fwyd a dŵr eich adar mewn man sydd wedi'i amgáu'n llwyr ac wedi'i amddiffyn rhag adar gwyllt, a chodwch unrhyw fwyd sydd wedi sarnu.

## Cam 3: Ffensio

Codwch ffens o gwmpas y mannau awyr agored y maen nhw'n eu defnyddio, er mwyn cadw anifeiliaid ac adar gwyllt draw.

## Cam 4: Cofrestrwch

www.gov.uk/guidance/poultry-registration

Cofrestrwch eich adar ar-lein i gael rhybuddion am unrhyw achosion o ffliw ada.

Supported by: